
Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys eu cefnogi i ystyried eu hiechyd cyffredinol eu hunain, a'r ffactorau a all effeithio arno. Mae hefyd yn cynnwys hybu llesiant plant a phobl ifanc a'u cefnogi i reoli anghenion iechyd corfforol a meddyliol penodol sy'n codi.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth gefnogi plant neu bobl ifanc â'u hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol eu hunain
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant neu bobl ifanc
3. cefnogi plant neu bobl ifanc i nodi a defnyddio strategaethau at ddibenion rheoleiddio emosiynol pan fyddant yn wynebu straen neu drallod
4. meithrin perthynas wrth weithio â phlant neu bobl ifanc i hybu trafodaethau am eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol
5. annog plant neu bobl ifanc i ddefnyddio'r adnoddau, y cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i hybu eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol eu hunain
6. gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â hyn i gytuno ar ganlyniadau a fydd yn gwella iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant neu bobl ifanc
7. adolygu neu gwblhau asesiadau risg wrth weithio â phlant a phobl ifanc i hybu eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol
8. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill i fynd i'r afael â gwrthdaro neu bryderon mewn perthynas â'u dewisiadau a'u hanghenion
9. annog plant neu bobl ifanc i nodi a gwerthuso newidiadau yn eu datblygiad corfforol a thrafod unrhyw bryderon sydd ganddynt
10. rhoi cymorth i blant neu bobl ifanc drefnu a mynd i apwyntiadau i fynd i'r afael ag iechyd corfforol neu lesiant meddyliol
11. cwblhau cofnodion ac adroddiadau am iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant neu bobl ifanc
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant neu bobl ifanc

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. yr effaith y gall oedran, cyfnod, datblygiad ac amgylchiadau personol plant a phobl ifanc ei chael ar eu gallu i gyfrannu a gwneud penderfyniadau am eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol eu hunain
2. pwysigrwydd sefydlogrwydd perthnasoedd ac effaith amharu, gan gynnwys amharu ar leoliad
3. ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad corfforol, emosiynol a seicolegol plant a phobl ifanc
4. effaith niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc
5. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar iechyd corfforol a llesiant meddyliol
6. y camau i'w cymryd os byddwch yn gweld arwyddion a symptomau a allai awgrymu defnydd o sylweddau anghyfreithlon
7. sut mae cael gafael ar wybodaeth am iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc, a sut mae adolygu a gwerthuso'r wybodaeth honno
8. ffyrdd o annog a chefnogi plant a phobl ifanc i hybu eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol eu hunain
9. ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i ddeall agweddau ar ofal iechyd personol, twf, a datblygiad rhywiol yn unol â'u hoedran, eu galluoedd, a lefel eu datblygiad a'u dealltwriaeth
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc
11. y mathau o adnoddau a chymorth ar gyfer hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc
12. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc
13. sut mae cwblhau'r asesiadau risg sydd eu hangen ar gyfer iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc
15. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol plant a phobl ifanc wrth ddelio â'u hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol eu hunain
16. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu iechyd corfforol a

llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

17. sut mae cefnogi plant a phobl ifanc i reoli unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar lefel y cymorth sydd ei angen arnynt â'u hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol

18. theorïau sy'n berthnasol i iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

22. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

23. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddjarwybod effeithio wrth hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu mewn perthynas ag iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc

Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD350

Hybu iechyd corfforol a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc



Datblygwyd gan	Skills for Care & Development
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2026
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2031
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Care and Development
RCU gwreiddiol	HSCCLD350
Galwedigaethau perthnasol	Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
Cyfes/Set	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
Geiriau Allweddol	Iechyd corfforol, Llesiant meddyliol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
